



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Siociau yn y gadwyn gyflenwi

Deall problemau mewn cadwyni cyflenwi tai

Matt Kennedy, Catherine May, Michelle Wibley



Cyflwyniad

Yng Nghymru, yn yr un modd ag ym mhob rhan o'r DU, mae diwydiant yn ddibynnol ar gadwyni cyflenwi byd-eang i ddarparu llawer o'r adnoddau sydd eu hangen i adeiladu cartrefi newydd a sicrhau bod gwaith atgyweirio a safonau diogelwch yn cael eu cynnal. Mae'r cadwyni cyflenwi hyn wedi cael eu herio'n ddifrifol gan y pandemig COVID-19, amodau'r cyfnodau clo dilynol fu'n cyfyngu ar fynediad i gartrefi, yr angen am ymwneud â'r cynllun ffyrlo i ddiogelu swyddi a pharhau'n gynaliadwy ac effaith salwch/hunan-ynysu staff ar gapasiti gwasanaethau.

Golyga cyfuniad y pwysau hyn â newidiadau mewn gweithluoedd gyda llai o weithwyr o dramor a'r newidiadau mewn cysylltiadau masnachu rhyngwladol, fod yr effeithiau dilynol ar ddefnyddwyr a sefydliadau wedi'u profi ledled Cymru.

Fel prosiect ymchwil a pholisi a leolir yn y corff aelodaeth ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol, aeth Tyfu Tai Cymru ati i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y tensiynau cynyddol ar sefydliadau tai sy'n gyfrifol am gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cartrefi diogel ac ecogyfeillgar. Rydym yn cydnabod mai'r lleisiau mwyaf pwerus yw'r rhai sy'n profi'r heriau hyn yn uniongyrchol, a gyflwynir yng nghanfyddiadau ein harolwg a'r astudiaethau achos a nodir yn yr adroddiad hwn.

Methodoleg

Bu i ni gynnal adolygiad tystiolaeth cyflym yn canolbwyntio ar ffynonellau gwybodaeth cyfredol a ffocysodd ar broblemau gysylltiedig yn ehangach â'r gadwyni cyflenwi - i gyd-fynd â hyn, gwnaethom hefyd adolygu'r camau/cyhoeddiadau diweddaraf ar lefel genedlaethol a lleol sy'n ceisio datrys rhai o'r problemau a nodir.


Datblygwyd arolwg gennym ar y cyd ag arbenigwyr yn y sector, a wahoddodd ymatebion rhwng 13 Awst a 17 Medi. Bu i ni dderbyn 31 o ymatebion gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i gymdeithasau tai, awdurdodau lleol a datblygwyr preifat.

Canolbwyntiodd yr arolwg ar bedwar maes allweddol:

- adeiladu cartrefi newydd
- cynnal a chadw bob dydd
- ôl-osod a rheoli asedau
- diogelwch tân.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ddeall i ba raddau y mae sefydliadau'n wynebu heriau yn y meysydd hyn, beth fu'r effaith a'r hyn y maent yn ei weld fel atebion posib.

Gwnaethom hefyd gynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rhai ymatebwyr i ymchwilio'n ddyfnach i rai o'r heriau sy'n effeithio'n fanylach ar sefydliadau.



Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch yn gynnes i'r unigolion/timau hynny a roddodd o'u hamser i gwblhau'r arolwg a/neu gytuno i gael eu cyfweld fel astudiaeth achos fanwl a ddarparodd wybodaeth drylwyr sydd wedi ychwanegu gwerth gwirioneddol at ein dadansoddiad. Hefyd, i'r rhai a fu'n ddigon caredig i wirio ein hargymhellion, gan ychwanegu mewnwelediad i helpu i fireinio a thargedu'r hyn a ofynnwyd.

Adolygiad o'r Dystiolaeth

Effaith Covid-19

Golygodd y cyfnod clo gwreiddiol fod llawer o ffatrioedd a melinau pren ar gau, gan effeithio ar gynhyrchu deunyddiau adeiladu. Ers ailagor, mae cyfyngiadau ar gynhyrchu sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi arwain at lawer o fusnesau'n ei chael hi'n anodd dal i fyny, ac ar yr un pryd mae galw byd-eang wedi codi'n serth wrth i'r economi ailagor.¹

Mae hyn wedi'i ddwysáu gan brinder cynwysyddion ac oedi mewn porthladdoedd ochr yn ochr â chynnydd serth mewn galw yn y byd adeiladu yn ail hanner 2020.

¹[Cost of building work on UK homes to rise as price of materials soars | Construction industry | The Guardian](#) (Accessed 22/9/2021).

²[The possible impacts of materials shortages in the UK \(rics.org\)](#) (Accessed 23/9/2021).

³[Why are house prices rising when everything else in the economy is going wrong? - Wales Online](#) (Accessed 5/10/2021).

⁴[the welsh housing market has seen the housing largest market growth](#) (Accessed 6/10/2021).

⁵[Building projects hit by lack of supplies and price rises - BBC News](#) (Accessed 24/8/2021).


Mae gofynion gweinyddol cynyddol ym mhorthladdoedd y DU o ganlyniad i Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE wedi digwydd ar yr un pryd â chynnydd sydyn mewn costau llongau a gordollau dros dro. Mae'r galw byd-eang cyffredinol am nwyddau a weithgynhyrchir wedi arwain at lonydd llongau sy'n gynyddol brysus.²

Mae cynnydd mewn gweithgarwch domestig hefyd wedi bod yn ffactor ychwanegol. Yn ystod y cyfnod(au) clo, bu ymchwydd yn nifer y bobl fu'n adnewyddu eu cartrefi, gan arwain at ostyngiad pellach yn y deunyddiau sydd ar gael. Mae mwy o amser a dreulir gartref wedi gwneud nodweddion y cartref yn bwysicach byth, gyda'r angen am weithfan pwrpasol ac awydd am ardd/gofod awyr agored.³

Wrth i weithio gartref fynd yn fwyfwy poblogaidd mae nifer arwyddocaol o bobl wedi ceisio symud gan nad oes angen iddynt fod yn byw ger eu gweithleoedd bellach - gan ysgogi galw yn y farchnad tai.⁴

Brexit a'r seilwaith danfon

Gan fod 80% o bren meddal yn cael ei fewnforio o'r UE, mae Brexit yn rhwstr sylweddol i ddod o hyd i ddeunyddiau adeiladu hanfodol. At hynny, mae prinder dur, sy'n golygu bod llawer o weithgynhyrchwyr yn atal archebion rhag ofn y bydd pobl yn prynu mewn panig. Ac er y disgwylir i gost llongau ostwng erbyn mis Ionawr 2022, rhagwelir y bydd galw byd-eang yn debygol o barhau'n ddwys tan hydref 2022.⁵



Gyda dibyniaeth drom ar ddeunyddiau o'r UE (tua 60% o ddeunyddiau yn y sector adeiladu) mae'r galw'n parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad. Golyga hyn fod y masnachau adeiladu wedi codi eu costau llafur yn sylweddol. Er gwaethaf cytundeb masnach y DU â'r UE, mae effaith Brexit wedi arwain at ymestyn y llinellau cyflenwi ar gyfer rhai cyflenwyr craidd o Ewrop.⁶

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi rhagweld cynnydd o 7-8% mewn prisiau deunyddiau, gyda chynnydd ar gyfer deunyddiau penodol, megis pren. Mae Mynegai Costau Deunyddiau BCIS yn rhagweld cynnydd blyneddol dros dro o 7.2% mewn costau deunyddiau o'i gymharu â 2020.⁷

At hynny, mae prosiectau seilwaith mawr (fel HS2) a gweithgarwch cyfanwerthol yn y sector (fel newid cladin) wedi rhoi baich pellach ar y cyflenwad deunyddiau a bydd hynny'n parhau.⁸

Ochr yn ochr â hyn, mae'r seilwaith danfon hefyd wedi'i effeithio'n ddifrifol. Yn ôl arolwg y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar Ffyrdd, ar hyn o bryd mae'r DU yn brin o dros 100,000 o yrwyr lori.⁹ Mae effaith ganlyniadol Brexit a COVID-19 yn parhau, gyda "pingdemic" ap COVID y GIG yn golygu bod yn rhaid i filoedd o grefftwyr a gyrwyr lori hunanynysu, gan effeithio felly ar gyflenwi deunyddiau adeiladu.

⁶[Construction Materials Shortage Could Impact the Economy | Homebuilding](#) (Accessed 1/9/2021).

⁷Ibid.

⁸Ibid.

⁹<https://www.rha.uk.net/News/News-Blogs-and-Press-Releases/News-Updates/detail/a-report-on-the-driver-shortage> (Accessed 1/9/2021).

¹⁰Ibid.

¹¹[Future Wales: the national plan 2040 | GOV.WALES](#) (Accessed 21/10/2021).

¹²[Manufacturing future for Wales: framework \[HTML\] | GOV.WALES](#) (Accessed 22/10/2021).


Mae cost llafur yn codi'n gyflym mewn rhai ardaloedd. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae cyflogaeth o fewn y sector adeiladu wedi gostwng o 2.3 miliwn yn 2017 i 2.1 miliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben 2020. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 4% o weithwyr adeiladu a anwyd yn y DU a gostyngiad o 42% yng ngweithwyr adeiladu o'r UE.¹⁰

Ymagwedd strategol gan Lywodraeth Cymru

Er bod 95% o bren a gynaeafir yng Nghymru yn llwyddo i fodloni'r radd adeiladu, dim ond 4% o bren a dyfir yng Nghymru a ddefnyddir at ddibenion adeiladu. O 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu coetiroedd yng Nghymru fesul isafswm o 2,000 hectar y flwyddyn. At hynny, yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig datgarboneiddio mwy o gartrefi drwy ôl-osod, darparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac arloesedd o safon gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol.¹²

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Rhaglen Lywodraethu'n awgrymu ailddylunio modelau busnes i ystyried sut y bydd busnesau'n gwella eu cydnherthedd yn y gadwyn gyflenwi, ac ar yr un pryd cyfrannu'n ychwanegol at adferiad gwyrdd drwy gadwyni cyflenwi cylchol.

Pwysleisir yr ymagwedd hon at gynyddu cydnherthedd y gadwyn gyflenwi drwy gaffael lleol hefyd o fewn Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru a'i strategaeth sy'n amlinellu'r weledigaeth i dyfu'r diwydiant Gweithgynhyrchu Oddi ar y Safle yng Nghymru.



Canfyddiadau'r Arolwg

Canfyddiadau allweddol ar gip...

- **Dywedodd bron i 90%** o'r ymatebwyr i'n harolwg wrthym eu bod yn cael problemau cymedrol neu sylweddol o ran cael mynediad i ddeunyddiau neu gynhyrchion sydd eu hangen i adeiladu cartrefi newydd, gwaith cynnal a chadw bob dydd ac ôl-osod cartrefi presennol
- **Tynnodd 72%** sylw at broblemau cymedrol neu sylweddol wrth gael gafael ar ddeunyddiau neu gynhyrchion diogelwch tân
- **Dywedodd dros 75%** o'r ymatebwyr wrthym iddynt gredu bod problemau mewn cadwyni cyflenwi wedi mynd yn fwy yn y cyfnod 6 mis yn arwain at fis Awst 2021
- **Teimlai 96% o ymatebwyr** fod effaith heriau yn y gadwyn gyflenwi wedi achosi oedi sylweddol o ran amser
- **Teimlai 70%** y bu effaith ar gostau, gyda chynnydd o hyd at **40% wedi'i nodi** ar draws ystod o ddeunyddiau gan gynnwys pren, dur, concrit a ffensys.

"Mae llawer o gleientiaid yn mynd ar ôl yr un cydrannau a contractwyr. Mae Brexit, y rhwystr yng Nghamlas Suez etc. wedi cael y bai am y cyflenwad a'r prisiau uwch. Mae COVID wedi effeithio ar gapasiti contractwyr a'r galw 'newyn a gwledd' yn ystod y cyfnod clo."

"Mae fy rôl bersonol yn canolbwyntio ar adeiladu cartrefi newydd, rwyf wedi ymwneud â hyn ers dros 30 mlynedd ac nid wyf erioed wedi gweld unrhyw beth sy'n peri cymaint o bryder â'r sefyllfa bresennol mewn cadwyn gyflenwi sydd eisoes yn gyfyngedig ac wedi'i hestyn."

Y prif rwystrau i ddod o hyd i ddeunyddiau/cynhyrchion


Mae ymatebion i gwestiynau am y pwysau y mae sefydliadau'n eu hwynebu o ran dod o hyd i'r deunyddiau a'r gwasanaethau i gyflawni eu blaenoriaethau yn adlewyrchu bod y problemau'n deillio o gyfuniad o ffactorau.

Datblygu cartrefi newydd

Pan ofynnwyd am y prif bwysau wrth adeiladu cartrefi newydd dewiswyd **Amserau aros** yn amlaf gan ymatebwyr wedi'i ategu gan gefnogaeth gref dros gyfuniad o broblemau eraill gan gynnwys **cyfyngiadau ariannol/cyllidebau; oedi sy'n gysylltiedig â chynllunio; diffyg capasiti'r gadwyn gyflenwi a dod o hyd i ddeunyddiau crai** (gyda'r un olaf heb ddangos unrhyw amrywiad arwyddocaol waeth p'un a yw'r deunyddiau hynny'n dod o'r DU, o Ewrop neu'r tu hwnt i Ewrop).


Y problemau sy'n effeithio ar adeiladu cartrefi newydd:

1. Amserau aros
2. Cyfyngiadau ariannol
3. Oedi cynllunio
4. Capasiti yn y gadwyn gyflenwi
5. Mynediad at ddeunyddiau crai



Ar draws y tri maes sy'n weddill, **Capasiti yn y gadwyn gyflenwi yw'r mater amlycaf** (Gweler Ffigur 1). Mae'r ymatebion yn adlewyrchu ei fod yn fwy aciwt o ran gweithgareddau sy'n gysylltiedig â **diogelwch tân neu gynnal a chadw bob dydd**. Dewiswyd argaeledd arbenigedd allanol yn aml hefyd fel problem amlwg ar draws y tri maes.

Ffigur 1. Cyffredinolrwydd y gwahanol broblemau sy'n gysylltiedig ag ôl-osod a rheoli asedau, cynnal a chadw bob dydd a diogelwch tân.



Mae rhai amrywiadau hefyd sy'n werth eu nodi:

Cynnal a chadw bob dydd


Pan ofynnwyd i staff am yr hyn y maent yn ei ystyried fel y prif bwysau ar ddod o hyd i'r cynhyrchion sydd eu hangen ar gyfer gwaith cynnal a chadw bob dydd, bu iddynt amlygu cyfyngiadau ariannol a chyllidebau fel mater amlwg. Mae'n ymddangos bod hwn yn faes lle nad oes llawer/dim materion gwirioneddol yn codi o ganlyniad i arbenigedd/gwybodaeth fewnol neu bryderon ynghylch cynhyrchion heb eu profi

Diogelwch tân

Trefniadau caffael a phryderon ynghylch cynhyrchion heb eu profi yw'r meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf o ran sicrhau bod eiddo'n ddiogel os bydd tân. Ymddengys fod cyfyngiadau ariannol/cyllidebau yn llai o broblem yn y maes hwn (o'i gymharu â'r meysydd gweithgarwch eraill).

Ôl-osod a rheoli asedau

Unwaith eto, mae cyfyngiadau ariannol/cyllidebau yn amlwg gyda phob mater arall sy'n weddill a restrir yn derbyn cymorth cyson (er ar lefel is) – yn wahanol i'r meysydd eraill y ffocysir arnynt.




Effaith heriau ar gadwyni cyflenwi


Mynediad at ddeunyddiau

Gan fyfrio ar ba ddeunyddiau/cynhyrchion a effeithiwyd fwyaf gan yr heriau yn y gadwyn gyflenwi - **Pren oedd y prif ddeunydd a nodwyd (20%).**

Ffigur 2. I ba raddau yr effeithir ar argaeledd gwahanol ddeunyddiau/gwasanaethau/nwyddau




Tynnwyd sylw hefyd at lawer o ddeunyddiau adeiladu sylfaenol fel sment/tywod, brics/blociau, concrit a dur yn ogystal â chynhyrchion fel drysau, toeon a gwydr. Er bod yr ymatebion yn awgrymu mwy o effaith ar ddeunyddiau/cynhyrchion penodol dros eraill, dengys ein harolwg y profir effaith ar ystod o ddeunyddiau/cynhyrchion sydd eu hangen drwy gydol y broses adeiladu o dorri tir newydd, trwodd i baratoi am feddiannaeth.



Cost, ansawdd ac amser

Ffigur 3. I ba raddau y mae'r problemau a nodwyd yn cael effaith ar gost, ansawdd ac amser




Pan ofynnwyd i bobl am effaith y pwysau ar gadwyni cyflenwi, roedd y prif destun pryder yn ymwneud â chynnydd amlwg mewn prisiau deunyddiau. Gan gadarnhau rhai o'r rhwystrau a amlygwyd yn flaenorol, **teimlai 70% o ymatebwyr y bu effaith sylweddol ar gost.** Dywedodd ymatebwyr wrthym eu bod yn gorfod talu mwy o gymharu â chwe mis yn flaenorol, pan oeddent yn gallu dod o hyd i adnoddau. **Nodwyd prisiau 30%-40% yn uwch ar draws ystod o ddeunyddiau gan gynnwys pren, dur, concrit a ffensys.**

"Mae wedi bod yn anos dod o hyd i ddeunyddiau ac mae eu pris wedi cynyddu, sydd wedi cael effaith ddilynol ar gyllidebau a chwblhau gwaith atgyweirio ar amser."

"Mae prisiau'n amlwg yn uwch ac mae sefyllfa contractwyr yn newid o ran hawliadau ac agweddau at dendro"

"Mae contractau pris sefydlog yn cael eu herio gan contractwyr lle gallant gyfiawnhau cynnydd mewn cost neu na allant amsugno costau ychwanegol. Mae cyllidebau cyfyngedig ar gael i dalu'r costau hyn oherwydd y disgwylir prisiau sefydlog."

Ar adeg ein harolwg teimlai ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr nad oedd unrhyw effaith ar ansawdd - er i bron 20% deimlo y bu effaith gymedrol.



Roedd ymatebwyr bron yn unfrydol yn eu barn bod amser wedi'i effeithio, naill ai'n sylweddol, neu i raddau cymedrol (96% o'r ymatebwyr). Dywedodd sawl ymatebwr wrthym fod yr oedi'n cael effaith ar draws eu datblygiadau gyda contractwyr a oedd yn anhapus ac eisiau addasu contractau.

"Mae'r prif broblemau'n deillio o'r storm berffaith o Covid yn effeithio ar gau gweithfeydd/ffatrïoedd ac yna ailagor gyda chyfyngiadau, sydd wedi effeithio ar amserau aros, cynnydd digynsail mewn costau, y galw gan UDA (am bren) ac arafu wrth fewngludo deunyddiau i'r wlad o ganlyniad i Brexit"

"Yn gyffredinol mae costau wedi cynyddu 10 i 20% gan wneud cynlluniau'n anymarferol pan oeddent o'r blaen"

"Mae cynnydd mewn prisiau cydrannau wedi bod, mewn rhai achosion mae pren i fyny 30%, dur i fyny 20%."

Mynd i'r afael â'r heriau

Ymateb y sector

Bu i ni ofyn i ymatebwyr ystyried sut yr oedd ymagweddau eu timau/sefydliadau wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf mewn perthynas â'r pedwar maes dan sylw yn yr arolwg. **Ar draws y meysydd hynny, edefyn cyffredin yw na fu newid arwyddocaol eto yn ymagweddau eu sefydliad.**

Er gwaethaf hyn, mae llawer o ymatebwyr wedi cymryd camau rhagweithiol i oresgyn problemau yn y gadwyn gyflenwi. I rai roeddent wedi dod o hyd i gyfleoedd i weithio gyda chyflenwyr i ddeall problemau a'r atebion iddynt, gan gynnwys **newid cynlluniau ac adeiladu mwy o amser i mewn**


i weithgarwch cynllunio. Roedd sefydliadau hefyd yn awyddus i **gael mynediad at wahanol ddeunyddiau gydag amserau aros ac argaeledd gwell.**

Nodwyd mesurau ymarferol pellach gan gynnwys:

- Cynyddu arbenigedd technegol ymhlith staff mewnol i gyflawni tasgau a allanolwyd yn flaenorol
- Adeiladu mwy o amser i mewn i ddarparu prosiectau/gwasanaethau, gan sicrhau bod y rhain yn realistig ar gyfer unrhyw contractau/cyflenwyr
- Prynu a storio meintiau mawr o ddeunyddiau/cynhyrchion allweddol i wrthbwysio diffygion yn y cyflenwad
- Gohirio rhai rhaglenni gwaith mawr tan flynyddoedd diweddarach i gynyddu'r potensial o allu dangos gwerth am arian (o ganlyniad i'r cynnydd presennol mewn prisiau)
- Nodi risgiau costau anwadal deunyddiau/cynhyrchion a'u cynnwys mewn contractau gyda chyflenwr
- Tynnodd eraill sylw at gamau i ddod o hyd i fwy o stoc leol a chynyddu'r capasiti storio ar gyfer eu deunyddiau.

Bu i rai ymatebwyr nad oeddent wedi cael problemau gyda'u cadwyni cyflenwi nodi bod hyn oherwydd iddynt gael mynediad i storfeydd stoc digonol mewn dociau.

"Sicrhau danfoniadau ar gyfer y dyfodol gan gyflenwyr lleol, cario lefel uchel o stoc."



"Rydym mewn contract gyda chyflenwr cenedlaethol ac felly mae gennym fynediad at ystod eang o ddeunyddiau sydd wedi'u stocio yn ein storfa benodedig"

"Rhoi gwybod i gleientiaid am y sefyllfa a gostwng disgwyliadau o ran amserlenni"

"Rydym yn gweithio'n agos i ddeall y sefyllfa gyda phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi ac wedi cyflwyno ystod o fesurau i helpu gan gynnwys taliadau ychwanegol, cyfnodau prisio byrrach etc"

"Mewn deialog gyson â'n cadwyn gyflenwi i ddeall y materion a'u cefnogi lle y gallwn. Mae llif arian yn broblem a fydd, yn ôl pob tebyg, yn arwain at fethiant cwmnïau da heb ryw fath o gymorth ariannol."

Rôl bosib Llywodraeth Cymru

Dywedodd yr ymatebion i'n harolwg wrthym nad oes ateb syml i hyn, i rai ymatebwyr roeddent yn teimlo nad oedd y mater o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru. Cydnabuodd sawl ymatebwr hefyd eu bod eisoes mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'u bod yn croesawu'r ddeialog hon. Yng Nghynhadledd Tai TAI 2021 CIH Cymru, amlinellodd y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd, Julie James AS, ymyriad posib i "brynu deunyddiau adeiladu sy'n brin i helpu'r sector tai cymdeithasol i barhau i ddatblygu".

Gan edrych yn fanylach ar y fath ymyriad, awgrymodd sawl ymateb yr angen am fuddsoddi mewn creu cadwyni cyflenwi mwy cynaliadwy yng Nghymru, fel bod nwyddau a thechnolegau'n cael eu datblygu a'u cyrchu'n lleol.

Gwnaed argymhellion i ddatblygu'r diwydiannau a'r seilwaith a fyddai'n ehangu cadwyni cyflenwi, gyda phren o Gymru yn flaenoriaeth i lawer, er i ymatebwyr gydnabod


bod hwn yn ateb tymor hir yn hytrach nag un tymor byr. Yn gysylltiedig â hyn, tynnodd sawl ymatebwr sylw at rôl Llywodraeth Cymru o ran cefnogi busnesau bach a chanolig a chynyddu prentisiaethau i hwyluso'r llif gweithwyr medrus newydd i'r sector.

Teimlai sawl ymatebwr hefyd y gallai amodau grant fod yn fwy hyblyg i adlewyrchu natur gythryblus yr hinsawdd weithredu ochr yn ochr ag ymrwymadau tymor hwy i gyllid a fyddai'n helpu i liniaru yn erbyn ymchwydd yn y galw y mae rhai sefydliadau'n eu profi.

Amlygwyd rôl llywodraeth leol hefyd fel un hollbwysig o ran medru rheoli'r oedi a'r ymchwydd disgwyliedig mewn costau. Soniwyd am gynllunio gyda chais am ymgorffori mwy o ddealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu adeiladwyr tai fel rhan o'r broses, er i nifer o ymatebwyr hefyd gydnabod bod materion capasiti adrannau cynllunio yn rhwystr ychwanegol.

"Daliwch ati i siarad â'r sector am y problemau rydym yn eu hwynebu ar draws sawl maes gwasanaeth a chefnogwch ni gyda phenderfyniadau cyson ar draws yr holl ddarparwyr tai o ran sut rydym yn ymdrin â chostau ac oedi o ran amser. Byddwch yn hyblyg gyda dyfarniadau grant sydd fel arfer yn rhwym i bob blwyddyn ariannol, efallai y bydd effeithiau amseru eleni a fydd yn golygu llithriad i mewn i'r flwyddyn nesaf"

¹²<https://www.insidehousing.co.uk/news/news/welsh-government-could-buy-up-building-materials-to-tackle-shortages-says-minister-71183>



Astudiaethau achos

Astudiaeth achos un - Safbwynt Cymdeithas Tai

"Rydym yn ymwybodol bod gennym ôl-groniad o waith atgyweirio sydd wedi cronni dros y 18 mis diwethaf, yn ystod y cyfnodau clo llymaf, y neges oedd mai dim ond gwaith atgyweirio brys y byddem yn ei wneud, a defnyddiwyd y cynllun ffyrlo ar gyfer rhai o'n staff cynnal a chadw.

Erbyn hyn, nid oes gennym ddigon o staff i fynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn atgyweiriadau cyffredinol, sy'n arwain at anfodlonrwydd ymhlith tenantiaid.

At hynny, rydym yn wynebu pwysau yn ein cadwyni cyflenwi - mae i'w weld yn anodd cael gafael ar gyflenwadau pren, dur a phlymio yn benodol. Er bod pethau wedi tawelu, mae staff yn dal i gael ein heffeithio gan orfod ynysu oherwydd bod ganddynt COVID neu eu bod yn gyswllt agos â rhywun sydd â COVID.

Nid yw'n cymryd llawer i faterion yn ymwneud â'r gadwyni cyflenwi gael effaith ddramatig ar ein rhaglen waith.

Roedd ein cyllideb darnau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon dros £300,000, roeddem yn orwario £150,000 ar ôl 7 mis ac ni fu hynny'n wasanaeth llawn hyd yn oed - dyna faint mae prisiau wedi codi.

Mae rhaglenni cynlluniedig sylweddol wedi'u gohirio, yn enwedig tai â chymorth - ystyrir eu bod yn rhy beryglus nes bod pethau'n tawelu.

Hoffwn weld consortiwm o sefydliadau tai yn gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â materion mewn cadwyni cyflenwi a chyrraedd nodau datgarboneiddio."

Astudiaeth achos dau - Safbwynt Awdurdod Lleol

"Efallai nad yw materion y gadwyni cyflenwi wedi effeithio ar ein cyngor cynddrwg ag eraill gan fod gennym Bartner Cyflenwi penodol, sef busnes bach a chanolig yng Nghymru ar gcontract 10 mlynedd. Mae hyn yn golygu nad oes angen i ni fynd drwy fframweithiau etc. pan fydd angen i ni ailstocio cyflenwadau. Diolch byth, roedd ein cyflenwr wedi cynyddu ei stoc cyn Brexit gan eu bod wedi rhagweld y gallai dod allan o Ewrop achosi problemau gyda chadwyni cyflenwi, felly pan ddigwyddodd COVID roeddent mewn sefyllfa gymharol dda.

Does neb sydd heb gael ei fwrw gan Brexit, Covid, yr argyfwng tanwydd a diffyg gyrwyr HGV, a nifer cymharol fach sydd heb gael eu heffeithio gan y cynnydd mewn prisiau. Yn nyddiau cynnar y pandemig pan gododd cost PPE (yn benodol) yn sylweddol, gwelsom ein bod yn talu prisiau eithafol dim ond i gadw ein gweithlu'n ddiogel - o ffedogau i fenig a masgiau. Gwnaethom hefyd osod sgriniau mewnol yn ein holl gerbydau er mwyn cadw pellter wrth deithio. Cafodd hyn i gyd effaith ariannol.

Mae pryderon mwy diweddar yn ymwneud â gwydr, gydag amserau aros yn ymestyn o 5 diwrnod i 3 wythnos, a 18 mis ar ôl dechrau'r pandemig, er nad yw'r sefyllfa wedi cyrraedd y pwynt pan nad oes deunyddiau ar gael, mae ein cyflenwr yn dechrau cael ei effeithio (wrth i'w stoc gychwynnol ddod i ben), sy'n cael effaith ddilynol arnon ni.



Yn awr hefyd, rydym yn gweld problemau mewn perthynas â chyrchu ein manylebau cytunedig, yn fwy diweddar cydrannau ar gyfer pethau fel gwyntyllau echdynnu – rydym yn defnyddio model penodol i wneud atgyweirio ac adnewyddu'n haws ond rydym yn awr yn ei chael yn anodd dod o hyd iddynt.

Yr ydym bob amser wedi ceisio dilyn y model Mewn Union Bryd ond nid ydym yn siŵr bod hynny'n gweithio mwyach gyda'r sefyllfa bresennol sydd ohoni. E.e. mae cynhyrchion fel cliciedau ffenestri, yr oeddem yn arfer gallu eu cael y diwrnod canlynol - bellach ar amserau aros estynedig ac rydym yn annhebygol o weld nhw tan fis Ionawr. O ganlyniad i hyn bu'n rhaid i ni a'n Partner Cyflenwi gymryd cymaint o stoc ag y gallem ddod o hyd iddi fel bod gennym ddigon am ychydig fisoedd o gyflenwad – gan daflu egwyddorion MUB allan o'r ffenestr!

Rydym yn parhau i geisio cynnal ein dangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel, sydd wedi'u gosod ar gyfer tai, ac er y dylem barhau i'w cyflawni eleni, mae problemau'r gadwyn gyflenwi yn mynd i wneud hyn yn anoddach.


Rhoddodd y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 stop ar ein holl waith atgyweirio nad yw'n frys. Wedyn, wrth i bethau leddfu roeddem yn gallu dechrau gweithio ar ein heiddo gwag, ond roedd hyn yn arafach na'r arfer oherwydd i staff orfod cadw pellter cymdeithasol.

Ers llacio'r cyfnod clo, mae gennym bellach ôl-groniad o waith atgyweirio nad yw'n frys i ddelio ag ef, yn ogystal â rhai newydd sy'n dod i mewn, ac er i hyn gael ei achosi gan gyfnodau clo a chyfyngiadau, nid o reidrwydd gan gadwyni cyflenwi, mae problemau parhaus y gadwyn gyflenwi bellach yn gwaethygu hyn.

Yn anffodus, mae'r holl faterion hyn yn achosi rhwystredigaeth ar lawr gwlad, y cyfan y mae'r contractwyr a'r gweithlu eisiau ei wneud yw bwrw ymlaen â'u gwaith ac ni allant bob amser ddeall pam na allant dod o hyd i'r hyn y maent ei eisiau pryd maen nhw ei eisiau a beth yn union sy'n achosi'r oedi, ac mae ein tenantiaid wedi gorfod bod yn amyneddgar iawn, nid yn unig o ran gorfod delio â'r cyfnodau clo parhaus, ond hefyd oherwydd yr amserau hirach maent yn gorfod aros i waith atgyweirio a gwaith newydd gael ei wneud yn eu heiddo.

Yn ôl pob tebyg bydd oedi a phroblemau pellach gyda'r gadwyn gyflenwi yn arwain at ganlyniadau difrifol i'n cyflenwyr a'n contractwyr ac yn y pen draw ni – gyda chynnydd mewn prisiau ond hefyd, yn anffodus, bydd busnesau'n gorfod cau. Gan fod llawer o'n contractwyr yn lleol, byddai hyn yn cael effaith enfawr ar ein cymunedau lleol.

Rydym bob amser wedi dibynnu ar ein sylfaen cyflenwi a chontractwyr i'n cefnogi ni wrth gyflawni buddion cymunedol a'n helpu i fodloni ein rhwymedigaethau (a bennir gan Lywodraeth Cymru), ond a ydynt mewn sefyllfa i barhau i wneud hyn, ac a ydynt yn derbyn digon o gefnogaeth?



Casgliad

Mae'r sefyllfa bresennol i'w gweld yn llawn heriau gyda chadwyni cyflenwi sy'n achosi oedi ar draws datblygu a chynnal a chadw tai, gan gynnwys meysydd blaenoriaeth allweddol megis diogelwch tân a datgarboneiddio.


Mae adeiladu cartrefi cymdeithasol newydd ledled Cymru yn flaenoriaeth, a amlygir gan uchelgeisiau Llywodraeth Cymru newydd ei hethol i gyrraedd targed o 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel yn ychwanegol at weithredu cyfundrefn diogelwch adeiladu newydd a pharhau'n gyflym gyda datgarboneiddio cartrefi presennol.

Dangosodd ein harolwg fod effaith problemau'r gadwyn gyflenwi'n eang gyda goblygiadau ar gyfer costau ac oedi. Mae'n galonogol gweld bod sefydliadau tai yn parhau i fod â hyder yn ansawdd eu cartrefi/gwasanaethau ond mae'n amlwg eu bod yn pryderu am gyrraedd eu targedau ar gyfer adeiladu tai, cynnal mesurau diogelwch a chynnal a chadw parhaus.

Pwysleisiwyd hyn ymhellach gan bryderon rhai ymatebwyr am effaith hirdymor penderfyniadau sy'n cael eu gwneud nawr wrth ymateb i heriau; eu bod yn gohirio cychwyn ar ddatblygiadau mawr nes y gallent fod yn fwy hyderus o gael cadwyn gyflenwi sefydlog. Mae hyn wedyn yn cael effaith botensial ar lif arian contractwyr ac is-gontractwyr llai eu maint, a allai ei chael yn anodd aros yn hyfyw heb gymorth ariannol.

Mae ein hadroddiad yn amlinellu, er bod sefydliadau tai ledled Cymru wedi medru darparu atebion tymor byr, fod materion tymor hwy y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn osgoi dadsefydlogi pellach a achosir gan ddigwyddiadau nas rhagwelwyd. Mae'r rhain yn cynnwys dibyniaeth ar gyflenwyr masnachu rhyngwladol sydd wedi profi'n fregus yn wyneb anghydbwysedd rhwng y galw a'r cyflenwad.

Wrth i'r economi a'r wlad ddechrau ymadfer yn sgil y pandemig COVID-19 a newid yn yr hinsawdd symud i fyny'r rhestr blaenoriaethau gwleidyddol, mae cyfle i chwilio am atebion newydd a deinamig i rai o'r heriau sy'n wynebu'r sector tai yng Nghymru.




Argymhellion

Llywodraeth Cymru:

1. Arwain a chynnull **Grŵp gweithredu'r gadwyn gyflenwi** i gynnal deialog barhaus â'r sector, cywain tystiolaeth a nodi bylchau mewn gwybodaeth/cudd-gwybodaeth, sganio'r gorwel ac ystyried effaith barhaus y problemau ar dargedau/meysydd blaenoriaeth y sector.
2. Creu ac **arwain cynllun cydnherthedd y Gadwyn Gyflenwi** sy'n cofnodi ymagwedd at dyfu ac amrywiaethu cadwyni cyflenwi presennol er mwyn sicrhau bod eu heffaith ar yr hinsawdd yn gostwng yn unol â thargedau'r llywodraeth ac yn adlewyrchu'r ymagwedd economi sylfaenol.
3. Cyflwyno mwy o **hyblygrwydd yn y model grantiau** a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid y llywodraeth i adeiladu tai cymdeithasol drwy:
 - Adolygu cyfraddau cyllido, dros dro, ar gyfer datblygiadau sydd yn y cam cyfrifyddu terfynol er mwyn sicrhau bod y gyfradd ymyriad grant yn parhau i fod yn addas i'r diben
 - Parhau i fonitro a diwygio Canllawiau Cost Derbyniol i gymryd cost chwyddiant i ystyriaeth
4. Datblygu **cymorth llif arian argyfwng tymor hwy i fusnesau bach a chanolig** er mwyn sicrhau bod gan contractwyr sy'n gweithio gyda'r sector gymorth ychwanegol i barhau'n hyfyw yn wyneb costau cynyddol
5. Datblygu **strategaeth gweithlu ar gyfer y sector tai cymdeithasol a fforddiadwy** i ategu'r sgiliau sydd eu hangen i wasanaethu a chynnal gweithgarwch y gadwyn gyflenwi

Y sector:

1. Dylai darparwyr tai **sefydlu cynghreiriau caffael gwasanaethau cartrefi a thai** i gynyddu darbodion maint, yn seiliedig ar egwyddorion yr economi sylfaenol
2. **Ymgysylltu â thenantiaid mewn cam cynnar** i ddarparu cyfathrebu clir a gonest am yr effaith y mae oedi'n ei chael ar wasanaethau sy'n wynebu tenantiaid. Cynnig cyfle i denantiaid ymgysylltu a gwerthuso sut mae gwasanaethau'n ymateb i denantiaid yn barhaus er mwyn mireinio a gwella ymatebion
3. Adolygu ac **adnewyddu ymagweddau at ddatblygu sgiliau rôl unigol/tîm** i nodi sgiliau/arbenigedd ychwanegol all gael eu datblygu o fewn eu gweithlu mewnol





Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r tîm:



Catherine May

rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02475 312021



Matt Kennedy

rheolwr polisi a materion cyhoeddus, CIH Cymru

E: matthew.kennedy@cih.org T: 02475 312020



Matt Dicks

cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02475 312018



Michelle Wibley

Lleoliad Myfyrwyr, CIH Cymru

Tyfu Tai Cymru -
Siociau yn y gadwyn gyflenwi